



GENERATION
KIND

YOUR TEAM IS GOING TO RESEARCH

Social media and animal welfare

and speak **for and against** that social media has been good for animals and their welfare

This brief has been produced as part of the *RSPCA's Animal Welfare: The Great Debate* and is a starting point for the research you will need to do into the subject in order to ensure a successful debate. The points for or against a subject may not be RSPCA policy and represent some of the wider thinking around the subject.

- Social media is now a dominant part of people's lives, and for many acts as a primary source of news and entertainment. With approximately half of all households in the UK owning a pet, it is unsurprising that posting content online about animals is something many people enjoy.
- There are countless Facebook groups, Twitter pages and Instagram channels devoted to pets and animals – ranging from cute animals, to animal memes and content on how to look after animals.
- Social media is so important in raising awareness about particular causes and issues. RSPCA's own Facebook channel has over 650,000 likes – sharing content such as animal rescues, welfare advice, pets for adoption, campaigns, news, products and more.
- Inappropriate material can also be posted online, leading to people mimicking illegal or cruel actions. Use of social media has also become habitual for many – meaning many people spend copious amounts of time online rather than doing other things.

FOR

Here are some points **in favour** of debating social media has been good for animals – what other points can you find?

- Social media is a fantastic tool for people to find animals to rehome, find lost animals or to learn about how to treat animals.
- Animal content often makes people happy, and can be very popular; emphasising the role that animals play in delivering good mental wellbeing.
- Social media can be used to inform about animal welfare issue across the globe and generate awareness – creating activists who can campaign for the better treatment of animals.

AGAINST

Here are some reasons why it is **not necessary** – can you find any more?

- Highlighting the mistreatment of animals online can lead to sharing of graphic imagery – which may upset people or cause trauma.
- Many people may post poor treatment of their animals to the internet to ‘show off’ or seek to go viral – potentially encouraging other people to adopt bad practice too.
- Posting information about your own animal to the internet opens an individual up to scrutiny, and could lead to disputes or even bullying.

Information you may want to find out

- What sort of content have you seen on social media about animals and their welfare?
- What key messages and campaigns do people share on social media related to animals?
- How can we ensure people post safe and appropriate content about animals online?

Potential sources of information

- RSPCA website: www.rspca.cymru
- Political Animal website: www.politicalanimal.wales
- RSPCA facts and figures: <http://media.rspca.org.uk/media/facts>
- <https://www.facebook.com/RSPCA/>
- https://twitter.com/RSPCA_official
- https://www.instagram.com/official_rspca/





GENERATION
KIND

MAE EICH TÎM YN MYND I YMCHWILIO I

Cyfryngau cymdeithasol a lles anifeiliaid

a siarad **o blaidd ac yn erbyn** bod y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn dda i anifeiliaid ac i'w lles

Mae'r briff hwn wedi'i lunio fel rhan o Ddadl Fawr yr RSPCA: Lles Anifeiliaid ac mae'n fan cychwyn i'r ymchwil y bydd angen i chi ei wneud i'r pwnc er mwyn cael dadl lwyddiannus. Mae'n bosibl na fydd rhai pwyntiau o blaidd neu yn erbyn pwnc yn bolisi gan yr RSPCA, ac mae'r pwyntiau yn cynrychioli peth o'r meddylfryd ehangach am y pwnc.

- Mae'r cyfryngau cymdeithasol bellach yn rhan amlwg o fywydau pobl, ac i lawer maent yn brif ffynhonnell newyddion ac adloniant. Gan fod tua hanner yr holl aelwydydd yn y Deyrnas Unedig yn berchen ar anifail anwes, nid yw'n syndod bod postio pethau ar-lein am anifeiliaid yn rhywbeth y mae llawer o bobl yn ei fwynhau.
- Mae nifer di-ri o grwpiau Facebook, tudalennau Twitter a sianeli Instagram wedi'u neilltuo ar gyfer anifeiliaid o bob math – yn amrywio o anifeiliaid ciwt, i femynnau (memes) anifeiliaid a chyngor ar sut i ofalu am anifeiliaid.
- Mae'r cyfryngau cymdeithasol mor bwysig wrth godi ymwybyddiaeth am achosion a materion penodol. Mae gan sianel Facebook yr RSPCA ei hun dros 650,000 o bobl yn ei hoffi – ac mae'n rhannu cynnwys yn ymwneud ag achub anifeiliaid, cyngor ar les, anifeiliaid anwes i'w mabwysiadu, ymgyrchoedd, newyddion, cynyrrch a mwy.
- Gellir postio deunydd amhriodol ar-lein hefyd, gan arwain at bobl yn efelychu gweithredoedd anghyfreithlon neu greulon. Mae defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi dod yn arfer cyson i lawer – sy'n golygu bod nifer o bobl yn treulio llawer iawn o amser ar-lein yn hytrach na gwneud pethau eraill.

O BLAID

Dyma rai pwyntiau o blaid dadlau bod y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn dda i anifeiliaid – pa bwyntiau eraill allwch chi eu canfod?

- Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych i bobl ddod o hyd i anifeiliaid er mwyn rhoi cartref newydd iddynt, dod o hyd i anifeiliaid sydd ar goll neu ddysgu sut i drin anifeiliaid.
- Mae cynnwys sydd ag anifeiliaid ynddo yn aml yn gwneud pobl yn hapus, a gallant fod yn boblogaidd iawn; gan bwysleisio'r rôl sydd gan anifeiliaid mewn iechyd meddwl a lles.
- Gellir defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod am faterion lles anifeiliaid ledled y byd a chodi ymwybyddiaeth – gan ysgogi pobl i weithredu ac ymgyrchu dros drin anifeiliaid yn well.

YN ERBYN

Dyma rai rhesymau pam nad yw'n angenrheidiol – ydych chi'n gallu canfod rhagor?

- Mae tynnau sylw at gam-drin anifeiliaid ar-lein yn gallu arwain at rannu lluniau neu fideos graffig – a gall y rhain greu gofid i bobl neu achosi trawma.
- Efallai y bydd llawer o bobl yn postio triniaeth wael o'u hanifeiliaid ar y rhyngrwyd i 'ddangos eu hunain' neu i geisio cael eu postiad wedi'i rannu'n eang – gan annog pobl eraill i fabwysiadu arfer gwael hefyd.
- Mae postio gwybodaeth am eich anifail eich hun ar y rhyngrwyd yn golygu bod unigolion yn agored i eraill graffu arnynt, a gallai hynny arwain at anghydfod a ffraeo neu hyd yn oed fwlio.

Gwybodaeth y byddech o bosibl am chwilio amdani

- Pa fath o gynnwys ydych chi wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol am anifeiliaid a'u lles?
- Pa brif negeseon ac ymgyrchoedd y mae pobl yn eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud ag anifeiliaid?
- Sut allwn ni sicrhau bod pobl yn postio cynnwys diogel a phriodol am anifeiliaid ar-lein?

Ffynonellau posibl i gael gwybodaeth

- Gwefan yr RSPCA: www.rspca.cymru
- Gwefan Political Animal: www.politicalanimal.wales
- Ffeithiau a ffigyrâu'r RSPCA: <http://media.rspca.org.uk/media/facts>
- <https://www.facebook.com/RSPCA/>
- https://twitter.com/RSPCA_official
- https://www.instagram.com/official_rspca/

